



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 2916 (Cy.213)

2005 No. 2916 (W.213)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Newid Categori
Ysgolion a Gynhelir (Cymru)
(Diwygio) 2005**

**The Change of Category of
Maintained Schools (Wales)
(Amendment) Regulations 2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001 ("y Prif Reoliadau"). Mae'r Prif Reoliadau'n gwneud darpariaeth i ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig ddod yn gategori ysgol arall o fewn y categorïau hynny, i ysgol arbennig gymunedol ddod yn ysgol arbennig sefydledig ac i ysgol arbennig sefydledig ddod yn ysgol arbennig gymunedol. Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu hefyd Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005").

These Regulations amend the Change of Category of Maintained Schools (Wales) Regulations 2001 (the "Principal Regulations"). The Principal Regulations make provision for a community, voluntary controlled, voluntary aided or foundation school to become another category of school within those categories, for a community special school to become a foundation special school and for a foundation special school to become a community special school. These Regulations also modify the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005 ("the 2005 Regulations").

Mae'r diwygiadau a'r addasiadau hyn yn ganlyniad i ddiddymu Atodlen 12 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gan Ddeddf Addysg 2002 a gwneud Rheoliadau 2005.

These amendments and modifications are consequential on the repeal of Schedule 12 to the School Standards and Framework Act 1998 by the Education Act 2002 and the making of the 2005 Regulations.

Mae Rheoliadau 3 i 9 yn gwneud mân ddiwygiadau i'r addasiadau yn y Prif Reoliadau sy'n ymwneud â chyfansoddiad cyrff llywodraethu ysgolion sy'n newid categori.

Regulations 3 to 9 make minor amendments to the modifications in the Principal Regulations relating to the constitution of governing bodies of schools which change category.

Mae Rheoliad 10 a'r Atodlen yn nodi'r darpariaethau addasedig yn Rheoliadau 2005 sy'n ymwneud â gwneud offerynnau llywodraethu ysgolion sy'n newid categori a chynnwys yr offerynnau llywodraethu hynny. Mae'r Atodlen yn rhoi Atodlen 3 newydd i'r Prif Reoliadau yn lle'r hen un.

Regulation 10 and the Schedule set out the modified provisions in the 2005 Regulations which relate to the making and the content of the instruments of government of schools which change category. The Schedule substitutes a new Schedule 3 to the Principal Regulations.

2005 Rhif 2916 (Cy.213)**2005 No. 2916 (W.213)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Newid Categori
Ysgolion a Gynhelir (Cymru)
(Diwygio) 2005****The Change of Category of
Maintained Schools (Wales)
(Amendment) Regulations 2005***Wedi'u gwneud* 18 Hydref 2005*Made* 18 October 2005*Yn dod i rym* 31 Hydref 2005*Coming into force* 31 October 2005

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 138(7) a 144 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(1) a pharagraff 5 o Atodlen 8 iddi ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(2), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 19, 20, 210(7) a 214 o Ddeddf Addysg 2002(3) mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

In exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 138(7) and 144 of, and paragraph 5 of Schedule 8 to, the School Standards and Framework Act 1998(1) and now vested in the National Assembly for Wales(2), and in exercise of the powers conferred on it by sections 19, 20, 210(7) and 214 of the Education Act 2002(3) the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**Title, commencement, interpretation and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2005, ac maent yn dod i rym ar 31 Hydref 2005.

1.-(1) The title of these Regulations is the Change of Category of Maintained Schools (Wales) (Amendment) Regulations 2005 and they come into force on 31 October 2005.

(2) Yn y Rheoliadau hyn-

(2) In these Regulations-

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the School Standards and Framework Act 1998;

ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001(4);

"the 2005 Regulations" ("*Rheoliadau 2005*") means the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005(4);

ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(5).

"the Principal Regulations" ("*y Prif Reoliadau*") means the Change of Category of Maintained Schools (Wales) Regulations 2001(5).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

(1) 1998 p.31. I gael y diffiniad o "regulations", gweler adran 142(1).

(1) 1998 c.31. For the definition of "regulations", see section 142(1).

(2) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.

(2) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I. 1999/672.

(3) 2002 p.32. I gael y diffiniad o "regulations", gweler adran 212(1).

(3) 2002 c.32. For the definition of "regulations", see section 212(1).

(4) O.S. 2001/2678 (Cy.219).

(4) S.I. 2005/2914 (W.211).

(5) O.S. 2005/2914 (Cy.211).

(5) S.I. 2001/2678 (W.219).

Diwygio'r Prif Reoliadau

2. Diwygir y Prif Reoliadau fel a ganlyn.
3. Yn rheoliad 3(1)-
 - (a) o flaen y diffiniad o "tir a ariennir yn gyhoeddus" mewnosoder y diffiniad canlynol-
" ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005;"
 - (b) yn lle'r diffiniad o "Atodlen 12 addasedig i'r Ddeddf" rhodder yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor y diffiniad canlynol-
" ystyr "y Rheoliadau 2005 addasedig" ("*the modified 2005 Regulations*") yw Rheoliadau 2005 fel y maent yn effeithiol gydag addasiadau yn rhinwedd rheoliad 12 o'r Rheoliadau hyn ac Atodlen 3 iddynt;"
4. Yn rheoliad 10(1), rhodder y geiriau "Rheoliadau 2005 addasedig" yn lle'r geiriau "Atodlen 12 addasedig i'r Ddeddf".
5. Yn lle rheoliad 11 rhodder y canlynol-
"11. Rhaid i'r offeryn llywodraethu newydd gael ei wneud yn unol â gofynion Rhan 5 o'r Rheoliadau 2005 addasedig a chydymffurfio â'r gofynion hynny."
6. Yn lle rheoliad 12 rhodder y canlynol-
"12. Mae Rheoliadau 2005 yn gymwys i'r offeryn llywodraethu newydd y cyfeirir ato yn rheoliad 11 gyda'r addasiadau a nodir yn Atodlen 3."
7. Yn rheoliad 13(1), rhodder y geiriau "Rheoliadau 2005 addasedig" yn lle'r geiriau "Atodlen 12 addasedig i'r Ddeddf".
8. Yn rheoliad 15(4), rhodder y geiriau "noddwyr-lywodraethwyr" yn lle'r geiriau "llywodraethwyr cyfetholedig ychwanegol".
9. Ar ôl rheoliad 15, mewnosoder y canlynol-
"15A. At ddibenion rheoliadau 14 a 15, pan nad yw'r awdurdod addysg lleol wedi gwneud offeryn llywodraethu ar gyfer y corff llywodraethu cyfredol yn unol â Rheoliadau 2005, mae'r categorïau cyfatebol o lywodraethwr fel a ganlyn-

Amendment of the Principal Regulations

2. The Principal Regulations are amended as follows.
3. In regulation 3(1)-
 - (a) before the definition of "the Act" insert the following definition-
" "the 2005 Regulations" ("*Rheoliadau 2005*") means the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005;"
 - (b) substitute for the definition of "modified Schedule 12 to the Act" the following definition-
" "the modified 2005 Regulations" ("*y Rheoliadau 2005 addasedig*") means the 2005 Regulations as they have effect with modifications by virtue of regulation 12 of and Schedule 3 to these Regulations;"
4. In regulation 10(1), substitute the words "the modified 2005 Regulations" for the words "modified Schedule 12 to the Act".
5. Substitute for regulation 11 the following-
"11. The new instrument of government must be made in accordance with, and conform to, the requirements of Part 5 of the modified 2005 Regulations."
6. Substitute for regulation 12 the following-
"12. The 2005 Regulations apply to the new instrument of government referred to in regulation 11 with the modifications set out in Schedule 3."
7. In regulation 13(1), substitute the words "the modified 2005 Regulations" for the words "modified Schedule 12 to the Act".
8. In regulation 15(4), substitute the words "sponsor governors" for the words "additional co-opted governors".
9. After regulation 15, insert the following-
"15A. For the purposes of regulations 14 and 15, where the local education authority has not made an instrument of government for the current governing body in accordance with the 2005 Regulations, the corresponding categories of governor are as follows-

<i>Categori llywodraethwr cyfredol</i>	<i>Categori llywodraethwr o dan Reoliadau 2005</i>	<i>Category of current governor</i>	<i>Category of governor under the 2005 Regulations</i>
Llywodraethwr cyfetholedig	Llywodraethwr cymunedol	Co-opted governor	Community governor
Llywodraethwr cynrychioliadol	Llywodraethwr cynrychioliadol	Representative governor	Representative governor
Llywodraethwr sefydledig (gan gynnwys llywodraethwr sefydledig <i>ex officio</i>)	Llywodraethwr sefydledig	Foundation governor (including <i>ex officio</i> foundation governor)	Foundation governor
Llywodraethwr AALl	Llywodraethwr AALl	LEA governor	LEA governor
Rhiant-lywodraethwr	Rhiant-lywodraethwr	Parent governor	Parent governor
Llywodraethwr partneriaeth	Llywodraethwr partneriaeth	Partnership governor	Partnership governor
Staff-lywodraethwr	Staff-lywodraethwr	Staff governor	Staff governor
Athro-lywodraethwr	Athro-lywodraethwr	Teacher governor	Teacher governor
Pennaeth (llywodraethwr <i>ex officio</i>)	Pennaeth (llywodraethwr <i>ex officio</i>)	Head teacher (<i>ex officio</i> governor)	Head teacher (<i>ex officio</i> governor)

10. Yn lle Atodlen 3 rhodder yr Atodlen 3 ddiwygiedig a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

10. For Schedule 3 substitute the revised Schedule 3 set out in the Schedule to these Regulations.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

18 Hydref 2005

18 October 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 p.38.

(1) 1998 c.38.

YR ATODLEN

SCHEDULE

Rheoliad 10

"ATODLEN 3

Regulation 10

"SCHEDULE 3

Darpariaethau Rheoliadau 2005 a addaswyd o ran yr Offerynnau Llywodraethu a grybwyllir yn Rheoliadau 10, 11 a 12 o'r Prif Reoliadau

Provisions of the 2005 Regulations modified in relation to Instruments of Government as are mentioned in Regulations 10, 11 and 12 of the Principal Regulations

Mae'r rheoliadau yn Rheoliadau 2005 a bennir yng ngholofn chwith y tabl isod yn effeithiol o ran yr offerynnau llywodraethu a grybwyllir yn rheoliadau 10, 11 a 12 gyda'r addasiadau a bennir yng ngholofn dde y tabl.

The regulations in the 2005 Regulations specified in the left hand column of the table below have effect in relation to instruments of government such as are mentioned in regulations 10, 11 and 12 with the modifications specified in the right hand column of the table.

<i>Y ddarpariaeth</i>	<i>Yr addasiad</i>
Rheoliad 33(1)(b)	Mae'r is-baragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau "neu y bydd yn perthyn iddo" wedi'u mewnosod ar ôl "y perthyn yr ysgol iddo".
Rheoliad 33(1)	Mae'r paragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r canlynol wedi'i fewnosod ar ôl rheoliad 33(1)(e)- "(ee) pan fydd yr ysgol yn dod yn ysgol sefydledig neu'n ysgol arbennig sefydledig, yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, yn ddarostyngedig i reoliad 14 o Reoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001, enw unrhyw gorff sefydledig neu berson a chanddo hawl i benodi llywodraethwyr sefydledig ac, os oes mwy nag un

<i>Provision</i>	<i>Modification</i>
Regulation 33(1)(b)	That sub-paragraph has effect as if the words "or will belong" were inserted after "the school belongs".
Regulation 33(1)	That paragraph has effect as if the following were inserted after regulation 33(1)(g)- "(gg) where the school will become a foundation school or foundation special school, a voluntary aided school or a voluntary controlled school, subject to regulation 14 of the Change of Category of Maintained Schools (Wales) Regulations 2001, the name of any foundation body or person entitled to appoint foundation governors and, if there is more than one such person

	<p>person o'r fath a chanddo hawl i benodi, y sail y gwneir penodiadau o'r fath arni o ran y newid categori ac ar ôl hynny pan fo swyddi gwag i'w llenwi;"</p>		<p>entitled to appoint, the basis upon which such appointments are made both on the change of category and thereafter when there are vacancies to be filled;"</p>
Rheoliad 33(2)	<p>Mae'r paragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau "y cynigir y dylai'r ysgol berthyn iddo" wedi'u rhoi yn lle'r geiriau "y perthyn yr ysgol iddo".</p>	Regulation 33(2)	<p>That paragraph has effect as if for the words "the school belongs" there were substituted the words "it is proposed the school should belong".</p>
Rheoliad 34	<p>Mae'r rheoliad hwnnw'n effeithiol fel petai'r rheoliad hwnnw wedi'i hepgor a'r canlynol wedi'i roi yn ei le-</p> <p>"34.-</p> <p>(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â gwneud offeryn llywodraethu ar gyfer ysgol sy'n newid ei chategori yn unol ag Atodlen 8 i Ddeddf 1998.</p> <p>(2) Rhaid i'r corff llywodraethu baratoi drafft o'r offeryn llywodraethu newydd a'i gyflwyno i'r awdurdod addysg lleol.</p> <p>(3) Pan fo gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig neu y cynigir y dylai fod gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig, rhaid i'r corff llywodraethu beidio â chyflwyno'r drafft i'r awdurdod addysg lleol onid yw wedi'i gymeradwyo gan y canlynol-</p> <p>(a) y llywodraethwyr sefydledig sy'n bodoli eisoes;</p> <p>(b) os nad oes unrhyw lywodraethwyr sefydledig yn bodoli eisoes, y personau y dylai</p>	Regulation 34	<p>That regulation has effect as if that regulation were omitted and the following substituted-</p> <p>"34.-</p> <p>(1) This regulation applies in connection with the making of an instrument of government for a school changing its category in accordance with Schedule 8 to the 1998 Act.</p> <p>(2) The governing body must prepare a draft of the new instrument of government and submit it to the local education authority.</p> <p>(3) Where the school has foundation governors or it is proposed that the school should have foundation governors, the governing body must not submit the draft to the local education authority unless it has been approved by-</p> <p>(a) the existing foundation governors;</p> <p>(b) if there are no existing foundation governors, the persons whom it is proposed will be entitled to</p>

	<p>fod hawl ganddynt i benodi llywodraethwyr sefydledig;</p> <p>(c) unrhyw ymddiriedolwyr unrhyw ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol;</p> <p>(ch) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol; a</p> <p>(d) yn achos unrhyw ysgol arall a ddynodwyd o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998 yn ysgol grefyddol ei chymeriad, y corff crefyddol priodol.</p> <p>(4) Ar ôl cael y drafft rhaid i'r awdurdod addysg lleol ystyried a yw'n cydymffurfio â phob darpariaeth statudol sy'n gymwys, ac-</p> <p>(a) os yw'n fodlon bod y drafft yn cydymffurfio felly, neu</p> <p>(b) os oes cytundeb rhyngddo, y corff llywodraethu ac (os oes gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig neu os cynigir y dylai fod gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig) y personau a grybwyllwyd ym mharagraff</p>		<p>appoint foundation governors;</p> <p>(c) any trustees of any trust relating to the school;</p> <p>(d) in the case of a Church in Wales school or Roman Catholic Church school, the appropriate diocesan authority; and</p> <p>(e) in the case of any other school designated under section 69(3) of the 1998 Act as having a religious character, the appropriate religious body.</p> <p>(4) On receiving the draft the local education authority must consider whether it complies with all applicable statutory provisions, and if-</p> <p>(a) it is content that the draft so complies, or</p> <p>(b) there is agreement between it, the governing body and (if the school has foundation governors or it is proposed that the school should have foundation governors) the persons mentioned in paragraph (3) that the draft should be revised to any extent and the</p>
--	---	--	---

	<p>(3) y dylid diwygio'r drafft i unrhyw raddau a bod y drafft diwygiedig yn cydymffurfio â phob un o'r darpariaethau statudol sy'n gymwys,</p> <p>rhaid i'r offeryn llywodraethu gael ei wneud ganddo ar ffurf y drafft neu (yn ôl y digwydd) ar ffurf y drafft diwygiedig.</p> <p>(5) Os, yn achos ysgol y mae ganddi lywodraethwyr sefydledig neu y cynigir y dylai fod ganddi lywodraethwyr sefydledig, y bydd y personau a restrir ym mharagraff (3) yn anghytuno ar unrhyw adeg â'r drafft, caiff unrhyw un o'r personau hynny ei gyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhaid i'r Cynulliad roi unrhyw gyfarwyddyd y gwêl yn dda gan roi sylw, yn benodol, at y categori o ysgol y cynigir y dylai'r ysgol berthyn iddo.</p> <p>(6) Os yw'r naill na'r llall o is-baragraffau (a) a (b) o baragraff (4) yn gymwys yn achos ysgol nad oes ganddi lywodraethwyr sefydledig neu os na chynigir y dylai fod ganddi lywodraethwyr sefydledig, rhaid i'r awdurdod addysg lleol-</p> <p>(a) hysbysu'r corff llywodraethu o'r rhesymau pam nad yw'n fodlon ar yr offeryn llywodraethu drafft, a</p> <p>(b) rhoi cyfle rhesymol i'r corff llywodraethu ddod i gytundeb gydag ef ynglŷn</p>		<p>revised draft complies with all the applicable statutory provisions,</p> <p>the instrument of government must be made by it in the form of the draft or (as the case may be) in the form of the revised draft.</p> <p>(5) If, in the case of a school which has foundation governors or it is proposed should have foundation governors, at any time the persons listed in paragraph (3) disagree with the draft, any of those persons may refer it to the National Assembly for Wales which must give such direction as it thinks fit having regard, in particular, to the category of school to which it is proposed the school should belong.</p> <p>(6) If neither of subparagraphs (a) and (b) of paragraph (4) applies in the case of a school which does not have foundation governors or it is not proposed should have foundation governors, the local education authority must-</p> <p>(a) inform the governing body of the reasons why it is not content with the draft instrument of government, and</p> <p>(b) give the governing body a reasonable opportunity to reach agreement with it on</p>
--	--	--	---

	<p>â diwygio'r drafft;</p> <p>a rhaid i'r offeryn llywodraethu gael ei wneud ganddo naill ai ar ffurf drafft diwygiedig y cytunwyd rhyngddo a'r corff llywodraethu neu (os nad oes cytundeb o'r fath) ar unrhyw ffurf y gwêl yn dda, gan roi sylw, yn benodol, i'r categori o ysgol y cynigir y dylai'r ysgol berthyn iddo.</p> <p>(7) Wrth gymryd unrhyw benderfyniad ynglŷn ag enw'r ysgol, rhaid i'r corff llywodraethu, yr awdurdod addysg lleol ac (os oes gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig neu os cynigir y dylai gael llywodraethwyr sefydledig) y personau a grybwyllwyd ym mharagraff (3), roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd o bryd i'w gilydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru."</p>		<p>revising the draft;</p> <p>and the instrument of government must be made by it either in the form of a revised draft agreed between it and the governing body or (in the absence of such agreement) in such form as it thinks fit having regard, in particular, to the category of school to which it is proposed the school should belong.</p> <p>(7) When taking any decision as to the name of the school the governing body, the local education authority and (if the school has foundation governors or it is proposed should have foundation governors) the persons mentioned in paragraph (3), must have regard to any guidance given from time to time by the National Assembly for Wales."</p>
Rheoliad 35(4)	Mae'r paragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau "rheoliad 34(3) fel y'i haddaswyd" wedi'u rhoi yn lle'r geiriau "rheoliad 34(2)".	Regulation 35(4)	That paragraph has effect as if for "regulation 34(2)" there were substituted "regulation 34(3) as modified".
Rheoliad 35(5)(b)	Mae'r is-baragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau "rheoliad 34(3) fel y'i haddaswyd" wedi'u rhoi yn lle'r geiriau "rheoliad 34(2)".	Regulation 35(5)(b)	That sub-paragraph has effect as if for "regulation 34(2)" there were substituted "regulation 34(3) as modified".
Rheoliad 35(6)	Mae'r is-baragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau "rheoliad 34(3) fel y'i haddaswyd" wedi'u rhoi yn lle'r geiriau "rheoliad 34(2)" ac fel petai'r geiriau "y cynigir y dylai'r ysgol berthyn iddo" wedi'u rhoi yn lle'r geiriau "y perthyn yr ysgol iddo".	Regulation 35(6)	That paragraph has effect as if for "regulation 34(2)" there were substituted "regulation 34(3) as modified" and as if for "the school belongs" there were substituted "it is proposed the school should belong".
Rheoliad 35(7)	Mae'r paragraff hwnnw'n effeithiol fel petai'r geiriau "y cynigir y dylai'r ysgol berthyn iddo" wedi'u rhoi yn lle'r geiriau "y perthyn yr ysgol iddo".	Regulation 35(7)	That paragraph has effect as if for "the school belongs" there were substituted "it is proposed the school should belong".

Rheoliad 37	Mae rheoliad 37 wedi'i hepgor.
-------------	--------------------------------

Regulation 37	Regulation 37 is omitted.
---------------	---------------------------

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 2916 (Cy.213)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Newid Categori
Ysgolion a Gynhelir (Cymru)
(Diwygio) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 2916 (W.213)

EDUCATION, WALES

The Change of Category of
Maintained Schools (Wales)
(Amendment) Regulations 2005

©© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W147/10/05

ON